Syniadau Gemau Mathemateg

Ffis Bis

Mae plant yn eistedd mewn cylch ac yn cyfrif o 1. Dewiswch ffis ar gyfer lluosrif o rif, er enghraifft 3, a bis ar gyfer lluosrifau o rif, er enghraifft 5. Bob tro y bydd lluosrif 3 neu 5 yn cael ei ddweud, rhaid i'r plant ddweud ffis neu bis. Os yw'r rhif yn lluosrif o'r ddau, dywedwch ffisbis!

Er enghraifft, un, dau, ffis, pedwar, bis, saith, wyth, ffis, bis, un deg un, ffis, un deg tri, un deg pedwar, ffisbis.

Rhowch gynnig ar luosrifau eraill neu ychwanegwch luosrif arall gyda 'wow'. Y plant i ddweud ffis, bis neu wow pan fo rhif yn cynnwys digid penodol yn hytrach na lluosrif.

twinkl.com

Tynnwch Lun

Yn hytrach na gair, crëwch gyfrifiad:
e.e 34+89=123

Am bob digid neu arwydd anghywir, lluniwch un rhan o lun rydych wedi cytuno arno, e.e. chwilen, ci, cath.



twinkl.com

Odrifau ac Eilrifau

Tynnwch lun grid sero a chroesau. Mae gan un chwaraewr/tîm odrifau a bydd gan y chwaraewr/tîm arall eilrifau. Y nod yw cwblhau rhes neu golofn gyda chyfanswm o 15.



Rhowch gynnig ar gyfansymiau eraill.

Defnyddiwch ddegau yn hytrach nag unedau gyda chyfanswm o 150 a.y.y.b.

twinkl.com

Beth Yw Fy Rhif?

Mae un plentyn yn dewis rhif rhwng 0 a 100. Mae'r plant yn gofyn cwestiynau i sefydlu beth yw'r rhif. Dylai'r cwestiynau arwain i atebion 'ydy' neu 'nac ydy'.

Ydy eich rhif yn llai na 50?
Ydi'r rhif yn eilrif?
Ydy eich rhif yn rif cysefin?

Efallai bydd angen cyfyngu'r nifer o gwestiynau 'mwy na' a 'llai na'.

Defnyddiwch rifau mwy.

twinkl.com

Mwy neu Lai

Mae un plentyn yn dewis rhif rhwng 0 a 100. Mae'r plant yn dyfalu'r rhif ac mae'r plentyn cyntaf yn dweud os yw'r rhif yn fwy neu'n llai na'r rhif y maent wedi'i ddewis. Cymerwch dro i gynnig rhif nes mae'r rhif wedi cael ei ddyfalu.

Rhowch gynnig ar rifau mwy, degolion neu ffracsiynau.

Efallai y bydd o gymorth i weithiau ysgrifennu'r amrediad ar fwrdd gwyn gan symud ymlaen ar linell rif dychmygol.

twinkl.com

Mae Seimon yn Dweud 'Geometreg'

Chwaraewch y gêm draddodiadol, ond gyda'r plant yn efelychu termau/siapiau geometreg gyda'u cyrff.

Defnyddiwch dermau fel paralel, perpendicwlar, aflem, lem, pedrochr, ongl sgwâr.



twinkl.com

Digid Sengl

Y plant i rolio dis a chymryd tro i adio'r rhif i'r cyfanswm.

Syniadau:
Cychwynnwch ar 100 a thynnwch rif sydd wedi cael ei ddewis ar hap gan ddefnyddio troellwr.

Y plant i roi'r ateb nesaf cyn rholio'r dis eto.

twinkl.com

Syniadau Gemau Mathemateg

Cyfatebu

Mae'r plant yn eistedd mewn cylch fel y gallant i gyd weld ei gilydd. Mae angen bwrdd gwyn bach a phin ffelt ar bob plentyn. Maent yn ysgrifennu cyfrifiad ar eu bwrdd lle mae'r ateb rhwng 0 a 30. Maent i gyd yn dangos eu cyfrifiad ac yn edrych am rywun arall sydd â'r un ateb.
Y pâr cyntaf i gyfatebu yw'r enillwyr.

Defnyddiwch wahanol amrediadau o rifau. Cyfyngwch y cyfrifiadau i gyfrifiadau tynnu.



twinkl.com